PET(4) WPI 58
Y Pwyllgor Deisebau

Ymgynghoriad ar ddeiseb P-03-262 Academi Heddwch Cymru
Ymateb gan Stephen Thomas

[redacted]

10 Rhagfyr 2011

Annwyl Ms Phillips,

Rwy'n ymateb i'r cynnig i ddanfon sylwadau am y ddeiseb am Academi Heddwch i Gymru (eich cyf. P-03-262). Wedi rhoi tystiolaeth yn bersonol i'r Pwyllgor Deisebau ar gychwyn y broses, hoffwn ychwanegu ddau bwynt sydd wedi fy nharo yn y misoedd diwethaf.

Un cwestiwn a godwyd gan y Pwyllgor oedd cylch gorchwyl posibl i'r Academi. Felly canolbwyntiaf fan hyn ar bwysigrwydd y fath Academi fel modd i ymchwilio i faterion economaidd sydd yn berthnasol i bobl Cymru ac i'r Cynulliad.

Un darn o ymchwil fyddai o fudd cymdeithasol, yn ogystal ag yn economaidd, yw dychweliad y Cymry a fu yn y Lluoedd Arfog a sydd yn aml yn wynebu problemau iechyd, ymddygiad ac ariannol wrth ddod yn ôl i fywyd i sifiliaid. Byddai arolygiad o effaith hyn arnynt, eu teuluoedd a'u cymunedau (a'r gost sydd yn deillio o hyn oll) yn bwysig iawn.

Mae llawer o sôn yn ddiweddar am ddiffyg gwerth arian gan y Weinyddiaeth Amddiffyn Brydeinig (MOD) ar brosiectau enfawr y Fyddin, Llynges a'r Llu Awyr Prydeinig. Ar raddfa Gymreig, mae rhai o'r un cwestiynau'n codi ble mae ein Llywodraeth ym Mae Caerdydd wedi buddsoddi arian sylweddol. Enghreifftiau o hyn yw Parc Aberporth, Ceredigion (canolfan yr awyrennau di-beilot, neu 'drones') a Sain Tathan (prosiectau DARA a Metrix). A ydyw'r buddsoddiadau hyn wedi, ...

bod yn ddefnydd effeithiol o arian Cymreig?

Dyma esiamplau o waith ymchwil, wedi ei gydlynu'n annibynol gan Academi Heddwch o'r fath a ragwelir, gyda mewnbwn gan academyddion o brifysgolion Cymru, fyddai o werth mawr i'r Cynulliad ac i bobl Cymru yn gyffredinol - y fath o waith nad ydyw'n cael ei flaenoriaethu'n ddigonol ar hyn o bryd.

Yr eiddoch yn gywir iawn,

Stephen Thomas